



# YR HEUWR

CYLCHGRAWN MISOL EGLWYS HOREB, PENRHYN-COCH  
CYFROL 2 RHIF 65  
EBRILL 2014

Ffilm sydd wedi ei ryddhau yn ddiweddar yw'r epig am *Noah* gan y cyfarwyddwr enwog, Darren Aronofsky. Mae'r ffilm yn seiliedig ar yr hanes enwog yn Llyfr Genesis, yr hyn sydd wedi swyno plant ac oedolion ar hyd yr oesoedd. Mae'n siwr y bydd dehongliad Aronofsky, a dderbyniodd cryn feirniadaeth eisioes, yn fodd i sbarduno trafodaeth a diddordeb o'r newydd yn hanes y cymeriad Noa, ei deulu, yr arch, yr anifeiliaid a'r dilyw.

Yn ôl yr hanes penderfynodd Duw foddîr byd am fod pawb a phopeth mor ddrwg, a'r byd yn gyfan wedi'i lygru gan ddyn. Ond ynghanol yr holl llygredd gwelodd Duw fod un gŵr da yn werth ei achub, sef Noa. Felly, rhoddodd orchymyn iddo adeiladu arch o bren er mwyn iddo ef a'i deulu, ynghyd â phâr o bob un o anifeiliaid y ddaear, gael lloches rhag y dilyw. Wedi i Noa adeiladu'r arch a sicrhau fod ei deulu a'r holl anifeiliaid yn ddiogel, dechreuodd hi fwrw glaw yn ddi-baid am ddeugain niwrnod a deugain nos nes bod pob man ar y ddaear o dan ddŵr. Ar ôl ychydig fisoedd, dechreuodd y dyfroedd ostwng ac er mwyn gweld a oedd y tir yn sych anfonodd Noa golomen allan o'r arch. Teirgwaith digwyddodd hynny. Dychwelodd y golomen y tro cyntaf ac felly hefyd yr eildro gyda deilen yn ei phig. Y trydydd tro ni ddaeth yn ôl am iddi ddod o hyd i dir sych. Wedi i Noa adael yr arch, addawodd Duw na fyddai byth eto yn boddîr ddaear ac fel arwydd o'r cyfamod newydd, gosododd enfys yn yr awyr.

Mae stori Noa yn un sydd yn parhau i gydio yn ein dychymyg fel y dengys ffilm Aronofsky ac y mae hi hefyd yn meddu ar wirioneddau oesol sydd yn werth eu hystyried heddiw. Beth felly yw rhai o'r gwirioneddau hynny?

Yn sicr mae gan stori Noa neges ecolegol gref ac mae'n pwysleisio ein dyletswydd i ofalu am y greadigaeth yn hytrach na'i llygru. Yn ddiweddar, cyhoeddwyd adroddiad gan y Cenhedloedd Unedig yn mynegi tystiolaeth bod y ddaear mewn trafferthion enbyd o ganlyniad i'r holl nwyon tŷ gwydr sy'n cael eu cynhyrchu gennym. Mae 'na alwad arnom i weithredu ar frys i leihau y niwed i'r blaned hon ac i fynnu bod y llywodraeth yn creu polisiau a fydd yn ei diogelu ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Ond ceir yn hanes Noa hefyd wirionedd am y llygredd personol sydd yn ein bywydau ac am yr angen inni ymateb i Dduw sydd bob amser yn barod i drugarhau wrthym er gwaethaf pob drygioni. Dyma Dduw sydd yn mynnu arllwys ei ras, ei drugaredd a'i gariad arnom heb ddal dim yn ôl. Yn ddiweddarach y mis hwn, fe fyddwn yn cofio am y daioni hyn yn cyrraedd ei benllanw wrth i'r Iesu farw ar groesbren trosom ni. Yma y gwelwyd y dilyw ysbrydol o ras, trugaredd a chariad yn cael eu harllwys ar fyd digon anhaeddiannol.

*Ar Galfaria yr ymrwygodd  
holl ffynhonnau'r dyfnder mawr,  
torrodd holl argaeau'r nefoedd  
oedd yn gyfan hyd yn awr:  
gras a chariad megis dilyw  
yn ymdywallt yma 'nghyd,  
a chyfiawnder pur a heddwch  
yn cusanu euog fyd.*

Gwilym Hiraethog

Pob bendith dros Wyl y Pasg,

Judith

Berwynfa, Penrhyn-coch, Aberystwyth. SY23 3EW 01970 820939 berwynfa@btinternet.com

## CALENDR MIS Ebrill 2014

Cyhoeddwr y Mis: Sandra Beechey	Organydd y Mis: Mair Evans	
6 Ebrill 10.30yb 2.30yp	Ysgol Sul o dan arweiniad Ceri. Oedfa Gymun: Gweinidog.	Bwrdd y Cymun: Mervyn a Sue
13 Ebrill 10.30yb	Oedfa Deuluol Sul y Blodau: Gweinidog.	
17 Ebrill 7.00yh Nos Iau Cablyd	Oedfa Gymun ddwyieithog ym Methel. Pregethir gan y Parchedig John Hibberd.	
18 Ebrill 10.00yb Gwener y Groglith	Oedfa Gymraeg yn Eglwys San Paul. Wedi'r oedfa cynhelir yr orymdaith drwy'r dref.	
20 Ebrill 2.30yp Sul y Pasg	Oedfa i Ddathlu'r Pasg: Gweinidog.	Gofal y Te: I'w drefnu
27 Ebrill 10.30yb Sul y Pasg Bach	Oedfa'r Pasg Bach: Gweinidog.	
4 Mai 10.30yb	Oedfa ym Methel: Gweinidog. Byddwn yn cyd-addoli â Bethel.	

### I'CH DYDDIADUR

7 Ebrill: Cinio Bara Caws, Eglwys Llanbadarn, 12.00-1.30yp.

9 Ebrill : Cinio Cymunedol Penrhyn-coch yn Neuadd yr Eglwys am 12.00yp.

9 Ebrill: Rihyrsal y Gymanfa Ganu yn Seion, Stryd y Popty am 7.00yh.

10 Ebrill: Cyfarfod 'Agor y Llyfr' yn Horeb am 11.00yb.

15 Ebrill: Joio @Morlan i blant blynyddoedd 3-6 yn y Morlan. Mwy o fanylion gan Zoe.

16 Ebrill: Cymdeithas Bethel: Sgwrs am *Ann Griffiths* gan Delyth Morgans Phillips am 2.30yp.

16 Ebrill: Rihyrsal y Gymanfa Ganu yn Nghapel y Garn am 7.00yh.

23 Ebrill: Cinio Cymunedol Penrhyn-coch yn Neuadd yr Eglwys am 12.00yp.

29 Ebrill: Cylch Darllen y Beibl am 2.00yp.

30 Ebrill: Rihyrsal y Gymanfa Ganu yn Horeb am 7.00yh.

7 Mai: Rihyrsal y Gymanfa Ganu ym Methel am 7.00yh.

10 Mai: Ysgol Undydd Cymdeithas Emynau Cymru, Festri Bethel 10.30 – 4.00

11 Mai: Cymanfa Ganu ym Methel, Aberystwyth am 10.00yb a 5.30yh. Arweinydd: Margaret Daniel.

22 Mehefin: Gwibdaith Bethel a Horeb i Ardal Ann Griffiths.

### LLOFFION

Dymuniadau gorau i Mervyn a Pete sydd wedi cael triniaeth yn yr ysbyty.

**Prosiect y Tair Gofalaeth:** Os oes gan rywun lythyrau, dogfenau, lluniau ayyb yn eu heiddo o gyfnod y Rhyfel Byd Cyntaf cysylltwch â Ceris neu Judith.

**Rhaglenni Cymanfa Ganu:** Mae Rhaglenni 2014 ar gael gan Ceris – pris £1.35

**Enwau ar y rhestrau:** Byddai'r swyddogion yn ddiolchgar pe gallech wirfoddoli trwy dorri eich enwau ar y rhestrau yn y cyntedd.

**Dyfodol Horeb:** Yn dilyn y cyfarfod i ystyried dyfodol Horeb a gynhaliwyd ar fore dydd Sul 23ain Mawrth, penderfynwyd sefydlu gweithgorau penodol i hyrwyddo gwaith yr eglwys. Y bwriad cychwynnol yw sefydlu'r pedwar gweithgor canlynol: Addoli; Plant a Phobl Ifainc; Arian ac Adnoddau; Estyn Allan. Os hoffech gyfrannu i un o'r gweithgorau hyn, dewch i gysylltiad. Byddwn yn croesawu pob cyfraniad. Yn ogystal, byddwn yn anfon holiadur allan i holl aelodau'r eglwys yn gofyn eu barn am awgrymiadau a syniadau i ddiogelu dyfodol Horeb.

**Cronfa Eleri:** Mawr yw ein gwerthfawrogiad i Gronfa Eleri am y nawdd a dderbyniwyd i brynu stand i'r sgrîn yn y capel, yn ogystal â sgrîn a chwaraewr DVD ar gyfer y festri. Derbyniodd y Clwb Hanner Tymor a Chlwb CIC hefyd gyfraniad i brynu adnoddau crefft. Diolch yn fawr i Gronfa Eleri!